**ATODIAD 1**

**GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**ADRODDIAD AR GYFER GWEITHGOR CYNLLUN INTEGREDIG RHEOLI RISG AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

| | |
|---|---|
| DYDDIAD: | 13eg Mawrth 2006 |
| ADRODDIAD GAN: | **Paul Claydon,**<br>**Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyflwyno'r Gwasanaethau)** |
| DIBEN YR ADRODDIAD: | Rhoi crynodeb i'r Aelodau o'r ymatebion a ddaeth i law i'r ymgynghoriad ar gynllun gweithredu trydedd flwyddyn y Cynllun Integredig Rheoli Risg. |

1. **CYFLWYNIAD**

1.1 Yn ei gyfarfod ar 19eg Rhagfyr 2005, cymeradwyodd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru cynllun gweithredu trydedd flwyddyn ei Gynllun Integredig Rheoli Risg, sef "Cynnal y Momentwm" at ddiben ymgynghori.

1.2 Anfonwyd at 500 o unigolion, cwmnïau a sefydliadau, i dynnu eu sylw at yr ymgynghoriad, a'i fod ar gael ar wefan y Gwasanaeth. Rhyddhawyd datganiadau i'r wasg i dynnu sylw at y broses ymgynghori, a'r ffaith fod y ddogfen ar gael. Anfonwyd copïau at holl safleoedd y Gwasanaeth.

2. **LEFEL YR YMATEB**

2.1 Roedd lefel yr ymateb i'r bwriadau ar gyfer y drydedd flwyddyn yn uwch nag ar gyfer y ddwy flynedd gyntaf. Daeth ymatebion gan 39 o wahanol bobl, mudiadau neu sefydliadau. Roedd llythyrau ac e-byst yn dal i gael eu derbyn hyd at ddiwedd y cyfnod ymgynghori, a thua thraean yr holl ymatebion yn dod i law yn ystod y cyfnod wedi'r dyddiad cau gwreiddiol sef Mawrth 1af.

2.2 Daeth ymatebion **y cyhoedd** gan:

- 6 o drigolion Llandudno (4 yn byw yn yr un bloc o fflatiau)
- 1 o drigolion Wrecsam
- 2 o drigolion Abermaw
- 1 o Gymdeithas Trigolion yn Llandrillo yn Rhos
- 1 o Fforwm Trigolion ym Mae Colwyn
- Rheolwr gwesty yn Llandudno
- Cadeirydd Cymdeithas Lletygarwch Llandudno
- Cwmni rheoli eiddo yn Llandudno
- 185 wedi arwyddo deiseb gan Glwb Ieuenctid yn Llandudno

2.3 Daeth ymatebion **gwleidyddion** gan:

- 2 o Aelodau o'r Cynulliad
- 3 Aelod Seneddol
- 1 Aelod o Dŷ'r Arglwyddi
- 1 Cynghorydd Sir (Sir y Fflint)

2.4 Daeth ymatebion **cynghorau** gan:

- 4 Gynghorydd Tref (Abermaw, Bae Colwyn, Llandudno a'r Waun)
- 2 Gyngor Sir (Conwy a Sir Ddinbych)

2.5 Daeth ymatebion **undebau** gan:

- 2 Undeb (Undeb y Diffoddwyr Tân Rhan Amser ac Undeb yr FBU)

2.6 Daeth ymatebion **aelodau o'r staff** gan:

- 1 Rheolwr Grŵp
- 3 Rheolwr Gwylfa
- 2 Reolwr Criw
- 2 Ddiffoddwr Tân Llawn Amser ac 13 o Ddiffoddwyr Rhan Amser wedi anfon un ateb wedi'i ddyblygu a'i lofnodi 15 gwaith
- 1 Prif Swyddog Tân wedi ymddeol

2.7 Ysgrifennodd y Gymdeithas Amddiffyn rhag Tân yn gofyn am wybodaeth i'w cynorthwyo i lenwi cronfa ddata i'w defnyddio gan yswirwyr.

2.8 Daeth tri ymateb i law **wedi'r dyddiad cau** gan:

- Cwpl yng Nghyffordd Llandudno (heb gyfeiriad)
- Unigolyn dienw (neges e-bost)
- Cyngor Tref Abergele nad oedd yn ymwybodol am yr ymgynghoriad cyn hynny a heb gael cyfle i'w drafod nac ymateb iddo.

## 3. CRYNODEB O'R PWYNTIAU A GODWYD MEWN PERTHYNAS Â BWRIADAU PENODOL

### Gostwng Nifer y Peiriannau ag Ysgol ac Esgynlawr (ALPs)

3.1 Y bwriad i ostwng nifer y peiriannau ALP hyn i dri, yn Wrecsam, y Rhyl a Bangor ddenodd yr ymateb mwyaf.

3.2 Roedd un cyngor yn cefnogi'n gryf yr adolygiad o'r peiriannau cyrraedd yn uchel a mabwysiadu'r safon cyrraedd o 30 munud, ac roedd yn ystyried mai mater i'r awdurdod tân oedd dewis pa gerbyd y dylid cael gwared arno yn seiliedig ar risg a goblygiadau ariannol.

3.3 Roedd un ymatebwr (nid o Landudno) yn cefnogi gostwng nifer y cerbydau i dri, ond yn cwestiynu'r bwriad i beidio â chael un yn Llandudno. Roedd y person hwn yn dymuno atgoffa'r Awdurdod y gellid cael mwy o arbedion trwy gael gwared ar y cerbyd o'r orsaf dân 24 awr yn y Rhyl, ac yn awgrymu y dylid cymharu proffil y Rhyl a Llandudno o ran risg cyn penderfynu'n derfynol ar gael gwared ar yr ALP o un ohonynt.

3.4 Cynnig tebyg i gadw'r pedwar cerbyd, ond eu criwio'n llwyr gyda diffoddwyr tân rhan amser, er mwyn lleihau'r costau staffio.

3.5 Cynnig arall oedd i'r Awdurdod gadw'r gallu ALP yn Llandudno trwy gael cerbyd newydd a chael un peiriant tân yn Llandudno gyda pheiriant aml-swyddogaeth cyrraedd yn uchel/pwmpio.

3.6 Fodd bynnag, roedd sawl ymatebwr heb fod yn cytuno â'r newid i safon ymateb o 30 munud. Roedd pobl o Landudno'n arbennig yn ofni y byddai unrhyw un yn sownd mewn tân yn yr adeiladau uchel sydd yno mewn mwy o berygl petaent yn gorfod dibynnu ar ddisgwyl i ALP o'r Rhyl neu Fangor gyrraedd.

3.7 Roedd proffil Llandudno fel tref wyliau bwysig â llawer o westai a datblygiadau adeiladu newydd yn thema oedd yn codi dro ar ôl tro. Roedd rhai ymatebwyr yn cyfeirio at y drafferth benodol o fynd i mewn ac allan o'r dref pan fo tagfeydd traffig.

3.8 Cyfeiriodd un ymatebwr arall at y ffaith fod poblogaeth dwristaidd yn cynyddu yn Llandudno dros yr haf ar yr un adeg ag roedd y boblogaeth fyfyrwyr yn lleihau ym Mangor.

3.9 Roedd rhywfaint o nerfusrwydd ynglŷn â'r newidiadau sydd yn yr arfaeth i dystysgrifau, pryd y bydd y cyfrifoldeb yn symud o'r gwasanaeth tân ac achub i'r bobl sy'n gyfrifol am adeiladau, gan wneud yr achos nad oedd nawr yn adeg da i feddwl am gael gwared ar yr ALP.

3.10 Roedd rhai o'r ymatebion yn amlwg o'r galon, â phobl yn apelio'n daer ar yr Awdurdod beidio â chael gwared ar yr ALP o'u tref. Roedd rhai eraill yn flin am rywbeth nad yw ond ymarferiad i dorri costau yn eu tyb hwy.

3.11 Roedd yna elfen o gam-wybodaeth yn mynd o gwmpas. Llofnodwyd deiseb gan 185 o oedolion a phlant yng Nghanolfan Gymuned Tŷ Llywelyn yn Llandudno yn dweud bod pobl, yn dilyn ymweliad gan y gwasanaeth tân i'r clwb ieuenctid, yn drist iawn ac yn synnu o glywed bod y peiriant i gael ei drosglwyddo i Lanelwy. Roeddent yn dweud y gallai'r penderfyniad o ganlyniad i doriadau arwain at farwolaethau. Roedd geiriad y ddeiseb yn gofyn i bobl ddangos eu cefnogaeth i'r frigâd dân trwy ei llofnodi.

3.12 Ysgrifennodd tri o bobl yn byw yn yr un adeilad ar Abbey Road, Llandudno, at yr Aelod Seneddol yn gwrthwynebu symud yr ALP o Landudno i Fangor. Fodd bynnag, wedi cael eglurhad llawnach gan y Swyddogion, ysgrifennodd dau ohonynt yn ôl at y Gwasanaeth yn dweud eu bod yn dawelach eu meddwl, ac y byddent yn rhannu'r wybodaeth gyda'u cyd-drigolion.

## Cael gwared mewn camau ar y Tendrau Argyfwng

3.13 Mae'n siŵr mai'r elfen hon o'r adolygiad o'r peiriannau arbennig yn y Gogledd oedd wedi ei ddeall leiaf. Roedd y gwrthwynebiadau'n seiliedig yn bennaf ar y gamdybiaeth y byddai'r tendrau argyfwng ym Mae Colwyn a Dolgellau'n cael eu symud, gan adael gwagle fyddai'n golygu llai o allu i achub yn yr ardaloedd hynny.

3.14 Er bod cefnogaeth i uwchraddio'r offer achub hydrolig ar injanau tân rheng-flaen, roedd ymatebwyr yn drwgdybio ansawdd yr adolygiad o'r peiriannau arbennig, ac yn bryderus na allai injanau tân gludo'r holl offer arbenigol sydd ar dendr argyfwng.

3.15 Roedd rhai aelodau o'r staff ar yr ochr weithredol yn bryderus y byddai'r criwiau ar yr injanau tân heb arbenigedd criwiau'r Tendr Argyfwng. Mynegwyd pryder hefyd ynghylch iechyd a diogelwch y criwiau.

3.16 Roedd yr Awdurdod yn cael ei gyhuddo eto o wneud newidiadau ar sail ceisio arbed arian yn unig.

## Darparu Cerbydau ag Echelydd Cul

3.17 Ysgrifennodd un cyngor tref a dau aelod o'r cyhoedd i wrthwynebu cael gwared ar y Pinzgauer/injan dân fechan o Abermaw, gan gyhuddo'r Awdurdod eto o dorri costau ar draul diogelwch y cyhoedd. Yn arbennig, roeddent yn bryderus na fyddai cerbydau mwy yn gallu mynd ar y lonydd a'r strydoedd cul yn yr ardal. Er na ddywedir hynny, roedd yr ymatebwyr i'w gweld yn camdybio bod y cerbydau hyn wedi eu cynllunio i ddiffodd tanau, a bod offer o'r fath arnynt.

## Codi Taliadau am Fynd at Alwadau Diangen oherwydd Larymau Tân Awtomatig

3.18 Cymysg oedd yr ymateb i'r bwriad hwn. Roedd dau o'r ymatebion yn cefnogi'r bwriad yn llwyr, a dau'n ei wrthwynebu ar sail y byddai rheoli galwadau yn well dewis oherwydd y risg y gallai'r defnydd a pherchnogaeth o'r larymau mwg leihau rhag ofn gorfod talu'r gwasanaeth tân ac achub am droi allan.

3.19 Roedd pumed ymatebwr yn sefyll ar y tir canol, sef yn dweud y dylai unrhyw fwriad fod yn annog gostwng nifer y galwadau diangen ond heb fod yn annog pobl i beidio â gosod larymau mwg awtomatig.

## Cyd-ymateb

3.20 Ymateb pwyllog gafwyd i'r bwriad hwn. Er bod rhywfaint o gefnogaeth frwd i'r Awdurdod dreialu cyd-ymateb, roedd rhywfaint o nerfusrwydd y byddai'n rhaid i'r criwiau ennill sgiliau fel parafeddygon er mwyn rhoi cyffuriau trwy bigiad i bobl mewn perygl bywyd.

3.21 Roedd eraill heb gael eu hargyhoeddi eto fod cyd-ymateb yn beth da i'r gwasanaeth tân ei wneud, ond er hynny'n barod i weld treial, cyn belled â bod gwerthusiad llawn yn cael ei gynnal i asesu'r effaith ar y gwasanaeth.

## Ymgysylltu mwy â chartrefi mewn cymunedau gwledig

3.22 Achosodd hyn amrywiaeth o ymatebion. Roedd rhai'n cefnogi'r bwriad yn llwyr, gan ei weld yn fodd i wella diogelwch y cyhoedd. Roedd yn benbleth i rai eraill, gan dynnu sylw at y ffaith fod y Gwasanaeth eisoes yn gwneud gwaith diogelwch tân cymunedol, yn arbennig gyda'r rhai sydd fwy nag 20 munud i ffwrdd o orsaf dân, ac nad yw hyn yn beth newydd. Roedd un ymatebwr yn teimlo y dylai pob gael gwybod faint y byddai'n ei gymryd i beiriant tân eu cyrraedd o'r orsaf dân agosaf.

3.23 Roedd rhywfaint o amheuaeth na fyddai digon o ddiffoddwyr tân rhan amser yn wir ar gael i wneud y gwaith diogelwch tân cymunedol. Roedd un ymatebwr yn annog yr Awdurdod i hyrwyddo'r defnyddio o 'Ddiffoddwyr tân proffesiynol a llawn amser' i wneud y gwaith, ac yn gofyn pa 'allbynnau mesuradwy' wedi cael eu gwneud mewn perthynas â chynnwys staff rhan amser i wneud gwaith diogelwch tân cymunedol.

3.24 Roedd pryder hefyd nad oes gan y gwasanaeth efallai ddigon o adnoddau i wneud yr holl asesiadau risg diogelwch tân yn y cartref y mae'n dymuno eu gwneud, ac yn holi a allai hyn, mewn difrif, gael ei wneud o fewn y cyllidebau presennol. Roedd un aelod o'r saff yn teimlo bod yr Awdurdod yn dibynnu gormod ar staff rhan amser, ac yn gofyn am ymrwymiad swydd lawn amser gan staff rhan amser.

3.25 Roedd un aelod o'r staff yn herio'r amcangyfrif mai 2,500 o eiddo yng Ngogledd Cymru sydd fwy nag 20 munud i ffwrdd o orsaf dân, gan ddweud fod y ffigwr yn agosach at 4,700 – sef bron i ddwywaith yr amcangyfrif gwreiddiol. Roedd yr ymatebwr hwn hefyd yn herio'r dybiaeth sylfaenol fod y bobl sy'n byw fwy nag 20 munud o orsaf dân, mewn gwirionedd, mewn mwy o berygl gan fod y rhai sy'n marw mewn tân yn tueddu i fod o fewn yr amser teithio o 20 munud o'n gorsafoedd.

## Technoleg Newydd ar gyfer Lleoli

3.26 Ar y cyfan, roedd cefnogaeth i'r bwriad hwn, er bod un ymatebwr yn rhybuddio'n erbyn symud gormod o arian draw oddi wrth y gwasanaethau rheng-flaen i dalu am feddalwedd a chaledwedd newydd.

3.27 Cymerodd dau aelod o'r staff y cyfle i roi'r achos gerbron i ganiatáu i'r criwiau gweithredol gynnal archwiliadau cynnal a chadw ar hydrantau, a hynny er mwyn gwella eu gwybodaeth leol ac i ymgysylltu mwy â'r gymuned leol.

## System Trosfwaol i Reoli Perfformiad

3.28 Cefnogwyd y bwriad hwn fel 'prosiect gwreiddiol a llawn gwybodaeth', gydag atgoffyn ychwanegol gan un ymatebwr y byddai angen i'r system casglu data ffitio'n glos gyda systemau cenedlaethol ar gyfer dal a dadansoddi data.

## Adolygiad o'r Ddarpariaeth o Reolwyr ar gyfer Digwyddiadau ar yr Ochr Weithredol

3.29 Ar y cyfan, roedd cefnogaeth i'r bwriad hwn. Roedd Undeb y Diffoddwyr Tân Rhan Amser yn dymuno gweithio gyda'r ganolfan Sgiliau, Dysgu a Datblygu ar gynnal safonau uchel o reolaeth meistroli trwy hyfforddiant priodoli i Staff y System Dyletswydd Rhan Amser. Roedd Undeb yr FBU yn dymuno'r adolygiad gael ei wneud ar sail Cyfrol 2 o'r Fire Service Manual : Fire Service Operations – Incident Command.

3.30 Gwnaeth un aelod o'r staff y pwynt fod ailstrwythuro'r Gwasanaeth eisoes wedi cael effaith ar broffil ymateb y rheolwyr digwyddiadau, ac y dylid bod yn ofalus wrth ddefnyddio data hanesyddol i sicrhau mai'r cyfnod amser mwyaf perthnasol a ddefnyddir. Dylid hefyd ystyried yr angen i gynnal y sgiliau.

3.31 Roedd un aelod o'r staff hefyd yn bryderus y gallai unrhyw fwriadau i ostwng nifer y rolau rheolaeth ganol adael y Gwasanaeth mewn lle bregus yn ystod amgylchiadau prysur; mentro torri canllawiau iechyd a diogelwch, a chael effaith andwyol ar y rolau goruchwyliol oherwydd morâl is.

## 4 **<u>CRYNODEB O'R PWYNTIAU A GODWYD MEWN PERTHYNAS Â MATERION CYFFREDINOL</u>**

4.1 Mynegodd un ymatebwr siom fod cyfranogiad Llywodraeth y Cynulliad yn arafu'r cynnydd a bod hynny wedi arwain at Gynllun Risg gwangalon nad yw ond yn chwarae ac mewn rhai ffyrdd yn cyfleu nad oes brys.

4.2 Roedd un cyngor yn awgrymu dadansoddi effaith a thebygolrwydd pob risg er mwyn gallu eu blaenoriaethu (pwysig, canolig, isel). Byddai camau i reoli'r risgiau hefyd yn elwa o fod yn rhai 'SMARTER' gyda nodi graddfeydd amser a mesurau i roi tystiolaeth o'r cynnydd yn glir.

4.3 Roedd un cyngor yn gwrthwynebu nad ymgynghorwyd â hwy yn ffurfiol ar y cynllun gweithredu arfaethedig. Nid oeddent yn teimlo nad gwir ymgynghoriad oedd darllen adroddiad mewn papur newydd fod yna wrthwynebiad ac yna, gael gwybodaeth fod y ddogfen ymgynghorol ar gael ar y wefan.

4.4 Roedd un aelod o'r cyhoedd yn cyhuddo'r Gwasanaeth o ymddwyn mewn ffordd llechwraidd trwy beidio â gwneud pobl yn ymwybodol o'r ymgynghoriad, a thrwy hynny geisio cael y bwriadau drwodd heb wrthwynebiad. Roedd yn dwrdio'r Gwasanaeth am beidio â dosbarthu taflenni neu hysbysiadau yn y wasg, ac yn dweud mai'r troi cyntaf iddo glywed am y peth oedd ar y newyddion Cymraeg ar ddiwedd Ionawr.

Roedd staff mewn un gorsaf yn honni bod llai o bobl yn gallu ymgynghori ar y ddogfen gan mai dim ond ar y we yr oedd y cynllun gweithredu trydedd flwyddyn ar gael.

4.5 Roedd un cynghorydd sir mai dim ond un peth roedd ei eisiau, sef cadw Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn hynny – sef Awdurdod ar gyfer Gogledd Cymru, a'n bod ni i gyd yn elwa o wasanaethau mwy lleol.

4.6 Roedd un cyngor yn cefnogi'r camau ychwanegol mae ATAGC yn eu cymryd i brofi a herio'r patrymau ymateb hanesyddol ac i weithredu trefniadau newydd a mwy cost-effeithiol cyhyd ag nad ydynt yn ychwanegu'n sylweddol at y risgiau presennol.

4.7 Roedd rhai ymatebwyr yn anfodlon nad oedd faint o fanylion sydd yn y ddogfen ymgynghorol yn caniatáu i'r darllenwyr gael barn gytbwys, gan nad oedd tystiolaeth ystadegol a setiau data wedi eu darparu fel cefndir i'r cynllun gweithredu trydedd flwyddyn.

4.8 Roedd rhai aelodau o'r staff yn teimlo'n anfodlon gyda strwythur y Gwasanaeth, ac yn dweud eu bod yn teimlo'n bell oddi wrth yr uwch reolwyr. Roedd rhai yn annog yr Awdurdod i roi mwy o ran i'r staff ei chwarae.

4.9 Gwerthfawrogwyd presenoldeb y Prif Swyddogion a'r Cadeirydd yn y cyfarfodydd i drafod y materion.

## 5. ARGYMHELLION

5.1 Bod yr Aelodau'n nodi'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

5.2 Bod yr Aelodau'n ystyried newidiadau ac argymhellion ar y cynllun gweithredu trydedd flwyddyn, sef "Cynnal y Momentwm" , i'w drafod yn ffurfiol yn y cyfarfod o'r Panel Gweithredol.